
18.02.2022

CYLCHLYTHYR YSGOL DEWI SANT NEWSLETTER

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL I DEULUOEDD YR YSGOL
WEEKLY FAMILY NEWSLETTER



Wnaethom bostio'r storiâu i BBC Radio Cymru wythnos yma! Pob lwc i bawb sydd wedi cystadlu!


We posted the stories this week to BBC Radio Cymru for the short story competition! Good luck to everyone that has entered!



NEWID I'R FWYDLEN / CHANGE TO THE MENU

Ar Ddydd Mawrth 01/03/22 bydd newid i'r fwydlen arferol - bydd 'fishcake' yn lle 'Burritos' (i ddysgwyr Derbyn a Bl1 yn unig). Ac yn dilyn dysgwyr Blynyddoedd 2,3,4,5 a 6 yn dychwelyd o'r orymdaith bydd pecyn bwyd wedi'w baratoi ar gyfer y rhai sydd eisiau cinio ysgol y diwrnod yna.

On Tuesday 01/03/22 there will be fishcakes for dinner instead of Burritos (for Reception and Yr1 only) Following our return from the St David's Day procession pupils from Years 2,3,4,5 & 6 who usually have school dinners will be offered a prepared packed lunch.



CYLCHGRAWN CYW



CYW MAGAZINE

Bydd cyfle i ddysgu am lythrennau a rhifau wrth chwarae, chwerthin a dysgu. Bydd storïau, syniadau am weithgareddau creadigol, cyfle i goginio (gyda help oedolyn wrth gwrs!) a llond lle o sticeri.

Law yn llaw a'r cylchgrawn, mae gwefan arbennig fydd yn cynnig cyfieithiad o'r holl gylchgrawn - rhoi cyfle i'r di-Gymraeg glywed y storïau yn cael eu darllen yn y Gymraeg.

Ydych chi wedi tanysgrifio eto?

- 4 rhifyn y flwyddyn am £15 yn unig
- Cyfle i ddysgu am lythrennau a rhifau
- Llond lle o sticeri
- 48 tudalen o weithgareddau hwyliog a sticeri)

Cyw's colourful 48-page magazine is packed with fun (and educational) activities for young children up to the age of six.

There will be an opportunity to learn about letters and numbers while playing, laughing and learning. There will be stories, craft ideas, cooking opportunities (under supervision of course!) and there will be lots of stickers!

We are aware that so many parents who send their children to Welsh medium schools are unable to speak the language themselves. With that in mind, we have prepared a website that provides an English translation of the whole magazine - focusing on vocabulary and on providing those learning the language with an opportunity to hear the stories being read in Welsh. This is a wonderful opportunity for the children to use and further develop their Welsh language skills outside the classroom.

Have you subscribed yet?

- 4 issues a year just £15
- Learn about letters and numbers
- Lots of stickers
- 48 pages of colourful activities
- Website which offers a translation of the whole magazine

Cliciwch i archebu/click to order:

http://pth.cymru/siop-cyw-cylchgrawn



GORYMDAITH DATHLU CYMREICTOD YSGOL DEWI SANT

01.03.2022

Fel y gwyddoch eisoes, rydym yn dathlu Cymru fel thema trwy'r ysgol yn yr wythnosau yn arwain at Ddydd Gŵyl Dewi.
Mae magu balchder ac ymdeimlad o berthyn i'n gwlad yn elfen hollbwysig gennym yma yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant.
Fel diweddglo i'n thema bydd dysgwyr Blynyddoedd 2,3,4,5 a 6 yn gorymdeithio ar hyd llwybr arfordirol Y Rhyl o Spalshpoint gan ddiweddu yn Arena Perfformiadau y dref, ble fydd cyfle i'n dysgwyr adloni cyd-ddisgyblion gyda chân, dawns neu stori.

Rydym yn sicr y bydd hyn yn achlysur a fydd yn creu atgofion byth-gofiadwy i'n plant.

Gofynnwn yn garedig i'n dysgwyr wisgo fyny ar gyfer yr achlysur. Dyma rhai syniadau ar gyfer gwisgoedd posib.


Top plaen coch gwyn neu gwyrdd


Gwisg traddodiadol


Pen Cennin Pedr


Crys Pel-droed Cymru



Crys Rygbi Cymru

Ni fydd côst i'r digwyddiad.
Bydd manylion amseroedd y diwrnod yn dilyn yn agosach at yr amser, rhagofn eich bod eisiau gwylio'r gorymdaith o bellter fel rhieni / gwarchodwyr.
Bydd dysgwyr Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 yn dathlu trwy orymdeithio yn agos at safle Ysgol Dewi Sant. Mae croeso iddynt wisgo fyny hefyd.

YSGOL DEWI SANT'S WELSH PROCESSION

01.03.2022

As you are aware, we are celebrating Wales as a theme in the weeks leading up to St David's Day. Developing pride and a sense of belonging to our country is so important to us here at Ysgol Gymraeg Dewi Sant. As a finale to our theme, Years 2,3,4,5 and 6 learners will be walking along the Rhyl coastal path starting at Splash-point and ending at the Events Arena. Once at the Events Arena, our learners will have the opportunity to entertain fellow pupils with a song , a dance or a story. We are certain that this will be an occasion that will create unforgettable memories for our children. We kindly ask our learners to dress up for the occasion.
Here are some ideas for possible outfits.


Plain red, white or green top.


Traditional costume


Daffodil head


Welsh football shirt



Welsh rugby shirt

There will be no charge for the event.
Details of the times for the days events will follow, in case you as parents / guardians want to watch the parade from a distance.
Nursery, Reception and Year 1 learners will celebrate by marching near Ysgol Dewi Sant.
They are welcome to dress up as well.

PAST PUPIL TAKE-OVER

CYN-DDISGYBL YN CYMRYD YR AWENNAU

HERE AT YSGOL DEWI SANT, WE ARE VERY PROUD OF EVERY SINGLE PUPIL THAT HAS PASSED THROUGH OUR DOOR.
EACH WEEK WE WILL BE SHINING THE SPOTLIGHT ON ONE PAST PUPIL WHO WILL TELL US HOW THE WELSH LANGUAGE HELPED THEM.

YMA YN YSGOL DEWI SANT, RYDYM MOR FALCH O BOB UN DISGYBL SYDD WEDI MYNYCHU'R YSGOL. POB WYTHNOS, BYDDEM YN DISGLEIRIO GOLAU AR UN GYN-DDISGYBL A FYDD YN DWEUD WRTHYM SUT MAE'R IAITH GYMRAEG WEDI HELPU NHW.



Kyra Newell

"Having an education in the Welsh language has brought many benefits to my life that I am reminded of daily. It's not only something to be proud of, but being able to speak two languages is very beneficial and is an asset I feel very fortunate to have.

I started Ysgol Dewi Sant and went on to continue my education in Welsh in Ysgol Glan Clwyd. I'm from an English-speaking household but this didn't in any way affect my school work and I was able to communicate through Welsh fluently by the time I left Ysgol Dewi Sant at the age of 11.

I was very fortunate to be appointed to my job in Ysgol Dewi Sant working in the school office, where Welsh is essential. I also used to work in a restaurant where I could offer customer service in both Welsh and English which was greatly appreciated by any bilingual customers. "

"Mae derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi sicrhau llawer o fanteision i fy mywyd ac rwy'n cael fy atgoffa o hyn yn ddyddiol. Rwy'n hynod falch o fedru siarad Cymraeg a mae gallu siarad dwy iaith yn ased rwy'n teimlo'n ffodus iawn o gael.

Dechreuais yn Ysgol Dewi Sant ac es ymlaen i barhau fy addysg trwy'r Gymraeg yn Ysgol Glan Clwyd. Rwy'n dod o aelwyd un-iaith Saesneg ond ni chafodd hyn effaith ar fy ngwaith mewn unrhyw ffordd ac roeddwn yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg erbyn i mi adael Ysgol Dewi Sant yn 11 oed.

Roeddwn yn ffodus iawn i gael fy mhenodi i fy swydd yn Ysgol Dewi Sant yn gweithio yn swyddfa'r ysgol, ble mae'r Gymraeg yn hanfodol. Roeddwn hefyd arfer gweithio mewn bwyty ble roeddwn yn cynnig gwasanaeth cwsmeriaid yn y Gymraeg a'r Saesneg a oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan unrhyw gwsmeriaid dwy-ieithog. "





Dyma plant dosbarth Bron Haul yn brysur yn casglu data am draffig o flaen yr ysgol. A welsoch chi nhw?

Here are the children in Bron Haul class busy collecting data about traffic in front of the school. Did you see them?



Mwynhewch yr hanner tymor . Bydd yr ysgol yn ail-agor Dydd Mawrth 01/03/22.


Enjoy the half term we will re-open on Tuesday 01/03/22.





Dyma Dosbarth Bodrhyddan yn mwynhau wrth fraslunio yn yr awyr agored wythnos yma.

Bodrhyddan class have had lots of fun sketching outside this week



Pwysig!

Important!

YN DILYN E-BYST BLAENOROL YNGLŶN Â'R STORM SYDD AR Y GWEILL, MAE'R SEFYLLFA WEDI DATBLYGU. MAE'R SWYDDFA DYWYDD WEDI CYHOEDDI RHYBUDD TYWYDD AR GYFER GOGLEDD CYMRU A ALLAI ACHOSI AFLONYDDWCH SYLWEDDOL AC AMGYLCHIADAU PERYGLUS OHERWYDD GWYNTOEDD CRYFION IAWN.

YN DILYN TRAFODAETHAU MEWNOL, RHANBARTHOL A CHENEDLAETHOL RYDYM WEDI GWNEUD Y PENDERFYNIAD ANODD I OFYN I BOB YSGOL SYMUD I DDYSGU O BELL (GORAU ALLWCH CHI O YSTYRIED BYR RYBUDD) AR GYFER DYDD GWENER 18.02.22. NID YW'R PENDERFYNIAD HWN WEDI'I WNEUD YN YSGAFN AC FE'I GWNAED I SICRHAU DIOGELWCH YR HOLL DDISGYBLION, STAFF, RHIENI AC YMWELWYR AR SAFLEOEDD YSGOLION.

FOLLOWING PREVIOUS EMAILS REGARDING THE IMPENDING STORM THE SITUATION HAS PROGRESSED. THE MET OFFICE HAVE ISSUED A WEATHER WARNING FOR NORTH WALES THAT COULD CAUSE SIGNIFICANT DISRUPTION AND DANGEROUS CONDITIONS DUE TO EXTREMELY STRONG WINDS.

FOLLOWING INTERNAL, REGIONAL AND NATIONAL DISCUSSIONS WE HAVE TAKEN THE DIFFICULT DECISION TO ASK ALL SCHOOLS TO MOVE TO REMOTE LEARNING (BEST ENDEAVOURS BASED ON SHORT NOTICE) FOR FRIDAY 18.02.22. THIS DECISION HAS NOT BEEN TAKEN LIGHTLY AND WAS TAKEN TO ENSURE THE SAFETY OF ALL PUPILS, STAFF, PARENTS AND VISITORS TO SCHOOL SITES.

@YSGOLDEWISANT